




Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Rhos Grwm, Yr Ysgwrn, Trawsfynydd

HAWDD



Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 1km
- Hyd: 30 munud
- Math o daith: Cylchdaith

Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru



1
Ewch drwy giât fechan fetel ddu yng nghornel isaf y maes parcio.




2
Ewch drwy giât fechan ar y dde a dilynwch ffin y cae a thrwy giât fferm i'r cae nesaf.



3
Peidiwch â mynd dros y bont bren. Cerddwch i'r dde ac anelu tuag at y sied amaethyddol.



4
Ewch drwy'r giât fetel. Pan fydd y ffordd yn fforchio, gwyrwch i'r chwith.



5
Ewch drwy'r giât fetel ddu a mynd heibio tu blaen ffermdy'r Ysgwrn.



6
Mae'r llwybr bychan sy'n troi oddi ar y ffordd i'r chwith yn mynd a chi tuag at olygfan o ardal Trawsfynydd. Parhewch yn eich blaen i ddychwelyd i'r maes parcio.